OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 984

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2020

### RHAN 4

### Gorfodi

**Pŵer mynd i mewn**

**17.**—(1) Caiff swyddog gorfodaeth fynd i fangre i gymryd camau gorfodi, neu i hwyluso cymryd camau gorfodi, o dan reoliad 16.

(2) Caiff swyddog gorfodaeth sy'n mynd i fangre yn unol â pharagraff (1)—

(a) defnyddio grym rhesymol i fynd i'r fangre;

(b) cymryd unrhyw bersonau eraill, cyfarpar a deunyddiau i'r fangre y mae'r swyddog yn ystyried eu bod yn briodol.

(3) Rhaid i swyddog gorfodaeth sy'n mynd i fangre yn unol â pharagraff (1)—

(a) os gofynnir iddo gan berson yn y fangre, ddangos tystiolaeth o bwy yw'r swyddog ac amlinellu at ba ddiben yr arferir y pŵer;

(b) os nad yw'r fangre wedi ei meddiannu neu os yw'r meddiannydd yn absennol dros dro, gadael y fangre wedi ei diogelu rhag mynediad anawdurdodedig yr un mor effeithiol ag yr oedd pan aeth y swyddog iddi.